# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## (CWLS (2) 04-06 (p1))

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher, 08 Mawrth 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00am - 12.00pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

**Polisi Chwaraeon**

**Cyd-destun Strategol**

1. Ym mis Ionawr 2005 cyhoeddais Dringo'n Uwch, strategaeth hirdymor Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae Dringo'n Uwch yn strategaeth integredig, a'i nod yw gwneud y gorau o'r modd y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol gyfrannu at les pobl Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, er mwyn sicrhau bod Cymru cystal â'r gorau o fewn 20 mlynedd.

2. Mae'r strategaeth hefyd yn hollbwysig i amcanion Her Iechyd Cymru a'r broses o'i chyflawni, ac hefyd yn cyfrannu at strategaethau lleol a chenedlaethol allweddol eraill. Rydym yn arbennig o awyddus i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol yng Nghymru, er mwyn gwneud y gorau o fanteision y buddsoddiadau sylweddol y maent wedi ei wneud mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

3. Mae llawer o waith wedi'i wneud eisoes:

Cynllun Nofio am Ddim – yn ôl arolwg diweddar roedd dros un o bob pump nofiwr dros 60 oed a gymerodd ran yn y cynllun yn rhai a oedd yn defnyddio'r pwll nofio am y tro cyntaf, ac roedd 63% o'r bobl ifanc a holwyd wedi cymryd rhan yn rheolaidd yn y cynllun Nofio am Ddim yn ystod gwyliau'r ysgol.

Cynllun Hyfforddi – mae dros 5,000 o hyfforddwyr hen a newydd yn cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddiant neu arweinyddiaeth pob blwyddyn. Mae tua 12,000 o hyfforddwyr cofrestredig yng Nghymru, a phob blwyddyn mae dros 4,500 o bobl yn dod yn arweinwyr chwaraeon neu'n arweinwyr chwaraeon cymunedol. Bydd y Cynllun Hyfforddi i Gymru yn creu seilwaith o hyfforddwyr ac arweinwyr wedi'i wreiddio yn y gymuned ar gyfer darparu mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

4. Mae Adrannau eraill o'r Llywodraeth yn cymryd rhan lawn hefyd:

Llwybrau Diogel i’r Ysgol – mae’r Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi ymuno â Tesco i annog plant i gerdded neu feicio i’r ysgol.

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 – yn dilyn y Ddeddf newydd hon, mae Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn ymroi i’r gwaith o ddatblygu a hyrwyddo’r broses o roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio cefn gwlad Cymru at ddibenion gweithgareddau hamdden.

Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – bydd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal prosiect i ddatblygu cynlluniau atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff.

5. Rwy'n datblygu Cynllun Gweithredu er mwyn cynorthwyo'r broses o roi Dringo'n Uwch ar waith. Rwy'n bwriadu lansio'r Cynllun Gweithredu hwn yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y Cynllun yn amlinellu sut y bydd Dringo'n Uwch yn cael ei gyflawni ar draws y Llywodraeth a thrwy ein partneriaid, megis Cyngor Chwaraeon Cymru, ein partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat.

6. Rydym hefyd yn gobeithio gwneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw i’n rhan yn sgîl y Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012.

7. Er mwyn gosod sylfaen gadarn i'r gweithgarwch hwn rwyf wedi sicrhau bod Cyngor Chwaraeon Cymru yn mynd ati i:

- sicrhau bod rhaglenni presennol y Cyngor Chwaraeon, a’u rhaglenni yn y dyfodol yn cyfrannu'n effeithiol at y broses o gyrraedd targedau Dringo'n Uwch;
- canolbwyntio mwy ar gynyddu cyfranogiad a chynhwysiant cymdeithasol ym myd chwaraeon ac mewn gweithgarwch corfforol yn y gymuned;
- gwneud y gorau o'r cyfleoedd traws-bortffolio, cyfranogi ac 'etifeddu' a ddaw i’n rhan yn sgîl Gemau Olympaidd Llundain 2012;
- cynnal safonau perfformio gwell i wneud y gorau o'r cyfle sydd gan Gymru i lwyddo ar y llwyfan cenedlaethol, yn arbennig yn ystod y cyfnod cyn y Gemau Olympaidd yn 2012; a
- datblygu ei rôl yn eirioli a chefnogi wrth ymwneud ag awdurdodau lleol yng Nghymru.

## Adnoddau

8. Mae'r blaenoriaethau sy'n cael eu hamlinellu yn Dringo'n Uwch yn darparu fframwaith strategol ar gyfer dyrannu adnoddau. Maent hefyd yn ffurfio fframwaith ar gyfer galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo’r broses o hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

- Cafwyd cyllideb o £6.8m yn 1999, ond byddaf yn buddsoddi dros £24m mewn chwaraeon erbyn 2007/08. Mae hyn yn gynnydd o dros 250% o fewn y portffolio chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn unig.

9. Wrth gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu uchod, byddaf yn darparu mwy o fanylion ynghylch sut rwy'n bwriadu gweithredu Dringo'n Uwch, ac yn rhoi manylion am fuddsoddiadau penodol. Fodd bynnag, bydd enghreifftiau yn cynnwys:

- adnoddau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion uwchradd;

- adnoddau i gynorthwyo gweithgarwch ar gyfer cyfranogaeth dorfol;

- adnoddau i alluogi chwaraeon a gweithgarwch corfforol i gyfrannu at adfywio cymunedol a dawns, yn dilyn adolygiad o bolisi’r Pwyllgor Diwylliant.

## Datblygu yn y Dyfodol

10. Yn 2004 fe wnaethom ni ddatgan ein bod yn bwriadu uno swyddogaethau polisi, strategaeth ac ymchwil Cyngor Chwaraeon Cymru ag Adran Ddiwylliant Llywodraeth y Cynulliad. Ein nod yw gwella atebolrwydd democrataidd drwy ailddiffinio’r berthynas sy’n bodoli o ran strategaeth a pholisi rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Chwaraeon Cymru. Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored, i gynnal partneriaeth a chyfranogiad ac i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus drwy ganolbwyntio ar anghenion cymunedau ac unigolion.

11. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar y gwaith hwn, ac rydym yn cadw at yr amserlen ar gyfer rhoi’r newid ar waith erbyn 1 Ebrill 2007. Rydym wedi cynnal trafodaethau cynhyrchiol eisoes, ac mae fy swyddogion i a swyddogion o Gyngor Chwaraeon Cymru yn parhau i gydweithio’n agos i ddatblygu’r dull mwyaf effeithiol o roi’r newid hwn ar waith mewn trefniadau perthynas a gwaith.

12. Mae un cam ymarferol a chadarnhaol iawn wedi cael ei gymryd eisoes, wrth i Bennaeth Polisi Cyfranogiad y Cyngor Chwaraeon fynd ar secondiad i fod yn bennaeth Bennaeth Polisi Chwaraeon Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn gymorth mawr i’r broses newid.

13. Mae’n rhaid i unrhyw newid esgor ar welliannau yn y modd yr ydym yn cynnal ein busnes; mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae’r modd yr ydym yn bwriadu gwneud hyn yn cael ei amlinellu yn Creu’r Cysylltiadau a’i gynllun gweithredu cysylltiedig a fydd yn para am 5 mlynedd – Cyflawni’r Cysylltiadau. Bydd uno swyddogaethau strategol a pholisi Llywodraeth y Cynulliad â Chyngor Chwaraeon Cymru yn datblygu ffyrdd newydd o weithio, a fydd yn cynorthwyo’r broses o fodloni’r targedau a amlinellwyd yn Cyflawni’r Cysylltiadau.